------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 51(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad yn dilyn adroddiad Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y cwmni Kancoat o Abertawe?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 3 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Chwaraeon Cymru

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cymunedau Cryf - Camau Nesaf

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Sefydlu'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth

(45 munud)

**Dogfennau Ategol:**

Grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerdd yng Nghymru
Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Ensembles Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

## 6 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017

(15 munud)

**NDM6234** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2017

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

(15 munud)

**NDM6233** Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil sy'n ymwneud â graddio addysg uwch, cymorth ariannol i fyfyrwyr, y cynllun annibynnol ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr a chymorth ar gyfer ymchwil, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Tachwedd ac fe'i diwygiwyd ar 1 Rhagfyr. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Ionawr yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Dogfennau Ategol**

Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## 8 Dadl: Morlynnoedd Llanw

(60 munud)

**NDM6237**

[Jane Hutt (Bro Morgannwg)](#)
[Paul Davies (Preseli Sir Benfro)](#)
[Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Croesawu Adroddiad Hendry a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n cefnogi'r achos dros ddatblygu diwydiant ynni morlynnoedd llanw ym Mhrydain.

2. Cydnabod yr angen i Lywodraeth Prydain gysylltu â Llywodraeth Cymru yn barhaus wrth ddatblygu a gweithredu polisïau ar gyfer morlynnoedd llanw.

3. Cydnabod, wrth sicrhau y trawsnewidiad i economi carbon isel, y dylai Cymru gael cymaint o fanteision economaidd â phosib o'r diwydiant ynni morlynnoedd llanw a thechnolegau llanw eraill, ar yr amod bod prosiectau o'r fath yn derbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Hendry

## 9 Dadl: Setliad yr Heddlu 2017-18

(30 munud)

**NDM6235** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2017-2018 (Setliad Terfynol -

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu). Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2017.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2017-2018 (Setliad Terfynol - Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu)

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Chwefror 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Chwefror 2017 i'w hateb ar 14 Chwefror 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynd i'r afael â thwyllo yng Nghymru? OAQ(5)0443(FM)

2. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i annog datblygu economaidd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0451(FM)

3. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo busnesau yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0450(FM)

4. **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo creu swyddi yng Nghasnewydd? OAQ(5)0458(FM)

5. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl y trydydd sector yng Nghymru? OAQ(5)0446(FM)

6. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau rheilffyrdd yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0461(FM)

7. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i'r diwydiant pysgod cregyn yn sgil y penderfyniad i adael yr UE? OAQ(5)0456(FM)**W**

8. **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Nhorfaen? OAQ(5)0459(FM)

9. **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(5)0455(FM)

10. **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0453(FM)

11. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a phrifysgolion Cymru parthed effaith sefydlu corff ymchwil ac arloesi y DU ar gyllid ymchwil yng Nghymru? OAQ(5)0452(FM)**W**

12. **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am werth canolfannau cychwyn busnesau bach yng Nghymru? OAQ(5)0462(FM)

13. **Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol canolfannau cyswllt clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru? OAQ(5)0454(FM)

14. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(5)0444(FM)

15. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y diwydiant dŵr yng Nghymru? OAQ(5)0460(FM)**W**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 28 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Addysg ac Argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Gwerthusiad Annibynnol o Fodel Ymateb Clinigol y Gwasanaethau Ambiwlans Brys (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid Arloesol: Model Buddsoddi Cydfuddiannol (30 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 1 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ymchwiliadau ac Ymgysylltu (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 7 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflawni Strôc wedi'i Ddiweddaru (45 munud)
- Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2016-17 (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2015-16 (60 munud)
- Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)

**Dydd Mercher 8 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

  **NNDM6210**

  **Lee Waters (Llanelli)**

  **Jeremy Miles (Castell-nedd)**

**Vikki Howells (Cwm Cynon)**
**Hefin David (Caerffili)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod tua 40 y cant o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi yn yr 'Economi Sylfaenol' yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel: seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a gofal.

2. Yn cydnabod bod y sectorau hyn yn aml yn fwy abl i wrthsefyll ergydion economaidd allanol a bod ganddynt gryn botensial i sicrhau mwy o werth lleol o ddarparu nwyddau a gwasanaethau lleol.

3. Yn gresynu fod llawer o'r sectorau o fewn yr Economi Sylfaenol yn nodedig am swyddi â thâl isel ac ansicrwydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i wneud yn fawr o effaith yr 'Economi Sylfaenol' ledled Cymru fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd, gan gynnwys mesurau i wella amodau cyflogaeth yn y sectorau hynny.

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Neil McEvoy (Canol De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mercher 14 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Diddymu'r Hawl i Brynu (Cymru) (60 munud)
- Dadl:  Y Rhaglen Cartrefi Cynnes (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)